Lefel 2

300 ODA

Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Lluniwyd y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y canlynol:

- lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed
- gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oedrannau.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn bydd dysgwyr yn gallu:

- meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffyrdd o weithio yn y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- bod â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n greiddiol i'w cefnogi wrth symud ymlaen i astudiaeth bellach neu gyflogaeth yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Strwythur y cymhwyster

Cymhwyster llinol yw'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Rhaid i ddysgwyr gyflawni'r pum uned orfodol ganlynol i gyflawni'r cymwyster:

Uned	Teitl yr Uned	Asesu
1	Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	Mewnol ac Allanol
2	Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad	Mewnol ac Allanol
3	Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Mewnol ac Allanol
4	Diogelu Plant	Mewnol ac Allanol
5	Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Allanol

Asesu

Caiff y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ei asesu drwy gyfuniad o asesu mewnol ac allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- tri asesiad mewnol, seiliedig ar senario, wedi'u gosod yn allanol; ac
- un prawf dewis lluosog i'w osod a'i farcio'n allanol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Mae'r cymhwyster hefyd yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, dylid nodi:
Mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gael rhestr o'r cymwysterau gofynnol y bydd eu hangen ar unigolyn sy'n gweithio yn y sector gofal, dysgu a datblygiad plant. Un o'r gofynion fydd ar y rhestr hon yw bod y rheini sy'n gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn meddu ar y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd a chymhwyster ymarfer sy'n berthnasol i'r rôl. Am ragor o wybodaeth am ofynion gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, gweler fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'i reoleiddio yng Nghymru (https://socialcare.wales/resources/qualification-framework).

Hefyd, bydd angen i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda phlant 8-12 oed ennill cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a enwir gan Skills Active i fodloni gofynion y rheoleiddwyr.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru

Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Trosolwg y cymhwyster

Mae'r cymhwyster wedi ei selio ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth a chymhwysedd i ymarfer y dysgwyr mewn cyflogaeth.

Mae'r cymhwyster yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio, neu am weithio mewn lleoliadau gofal plant rheoledig gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed a gwasanaethau plant GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.

Mae'r cymhwyster wedi ei selio ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth a chymhwysedd dysgwyr. Mae wedi ei greu ar gyfer dysgwyr sydd mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer y dysgwyr trwy eu gwaith a gallu dangos eu bod yn gallu:

- deall, ac ymroi yn ymarferol, egwyddorion a gwerthoedd sydd wrth wraidd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac ymroi yn ymarferol, dulliau plentyn canolog i ofal, chwarae a dysgu
- hybu a chefnogi datblygiad plant trwy ymarfer ei hun
- bod yn ymwybodol o bolisiau allweddol o fewn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad a darpariaeth y gwasanaeth
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, cynhalwyr ac amrywiaeth o bobl broffesiynol
- adlewyrchu ar ymarfer i wella trwy'r amser
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- defnyddio llythrenedd, rhifedd a sgiliau cymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu rôl.

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'n addas ar gyfer:

- dysgwyr sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant sy'n cwblhau rolau a chyfrifoldebau Lefel 3
- dysgwyr sydd wedi cyflawni cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd neu Ymarfer
- y rhai sy'n gweithio yn Dechrau'n Deg, ac y rhai sy'n darparu'r cwricwlwm i blant 3 i 7 oed yng Nghymru
- dysgwyr sydd wedi cwblhau'r hen gymhwyster Lefel 2 sydd wedi ei restru ar Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant Rheoledig yng Nghymru.

Mae'n argymelledig bod dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster craidd cyn neu, ochr yn ochr Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer achos bydd hwn yn ofyniad i ymarfer sydd wedi ei osod gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
Mae hefyd yn rhan o Brentisiaeth Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru).

Beth fydd y cymhwyster yn cynnwys?

Mae cynnwys hanfodol y cymhwyster yn ymochrol â'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyda chanolbwynt ymarfer penodol ar blant dan 8 oed sydd wedi ei gefnogi gan wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant hyd at 18 oed. Mae'r testunau canlynol yn rhai hanfodol:

- egwyddorion a gwerthoedd
- iechyd, lles, dysgu a datblygiad
- ymarfer broffesiynol
- diogelu plant
- iechyd a diogelwch
- datblygiad plant
- iaith lafar, iaith a chyfathrebu
- cefnogi plant (maeth a hydradiad).

Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn cynnwys unedau hanfodol ac unedau opsiynol. Mae'r unedau hanfodol yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau angenrheidiol i allu ymateb i anghenion plant hyd at 8 oed.
Mae'r unedau opsiynol yn galluogi'r dysgwyr i ganolbwyntio eu dysgu a'u sgiliau sydd wedi eu datblygu ar feysydd allweddol o ddiddordeb sy'n berthnasol i anghenion plant, gan gynnwys trochi iaith, cynorthwyo teuluoedd I ddatblygu sgiliau rhiant a chynorthwyo plant sydd ag anghenion ychwanegol.
Mae amrywiaeth o unedau gofal iechyd wedi eu cynnwys i adlewyrchu anghenion cymhleth rhai plant sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned.

I gwblhau Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer mae dysgwyr angen cyflawni isafswm o 50 credyd

- 30 credyd angen eu cwblhau o'r grwp hanfodol
- Isafswm o 20 credyd angen eu dewis o'r gyfres o unedau opsiynol.

Asesu ar gyfer y cymhwyster

Mae dysgwyr angen cyflawni:
- Tasgau sydd wedi eu llunio'n allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth broffesiynol.

Beth gall y cymhwyster arwain at?

Wrth gwblhau'r cymhwyster Lefel 3 Gofal , Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer mae'n galluogi'r dysgwyr i weithio fel gweithiwr gofal plant Lefel 3 cymwysedig mewn modd heb oruchwyliaeth ac, mewn nifer o leoliadau gwaith, mewn rôl Arweinyddiaeth.
Mae'r cymhwyster yn paratoi dysgwyr i symud ymlaen at:

- Lefel 4 Ymarfer Broffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Paratoi am Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae cyfleoedd am addysg bellach a hyfforddiant proffesiynol yn cael eu harchwilio gyda phrifysgolion ar draws Cymru, gan gynnwys Tystysgrifau mewn Addysg Uwch.

Efallai bydd diddordeb gan ddysgwyr, ac am symud ymlaen at:

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- TGAU Uwch a TGAU Atodol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Mae dysgwyr angen cyflawni unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig ag oedran a phrofiad cyn gallu symud ymlaen at rai rolau arweinyddiaeth yn y sector.

Am wybodaeth bellach

Mae llawlyfr y cymhwyster a'r pecyn asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 ar gael o wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.
Am wybodaeth bellach, ewch i:: www.healthandcarelearning.wales